cynllun datblygu SOLACECymru 2010-13

solace Cymru

Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol

EVERSHEDS
Deloitte.
ZURICH MUNICIPAL

rhagair

Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad aelodaeth ymglymedig sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i bolisi cyhoeddus gan siapio dyfodol Cymru, gyda'r nod yn y pen draw o wella canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau.

Mae'r ddogfen hon yn datgan ein gweledigaeth ar gyfer SOLACE Cymru ac yn amlinellu'r nodau a'r amcanion a fydd yn cael blaenoriaeth gennym dros y tair blynedd nesaf. Rydym yn anelu i fod yn sefydliad cynyddol weithgar ac ymrwymedig a fydd, fel llais proffesiynol Prif Weithredwyr ac uwch reolwyr llywodraeth leol, yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn teimlo'n galonogol ynglŷn â'r berthynas o gyd-ymddiriedaeth a pharch sy'n datblygu rhyngom ni a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac am eu derbyniad cynnes a'u hanogaeth i ni ddod yn bartneriaid dilys, ochr yn ochr â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er mwyn llunio cyfeiriad polisi strategol dros Gymru. Rydym yn bwriadu manteisio'n llwyr ar y cyfle hwn.

Mae SOLACE Cymru eisoes yn sefydliad effeithiol sydd wedi cyflawni llawer iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Diolch i ymrwymiad a chefnogaeth cydweithwyr a phartneriaid, rydym mewn lle da i wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael inni ac rydym yn barod i gymryd rôl flaenllaw yn y gwaith o oresgyn yr heriau sy'n wynebu Llywodraeth Leol.

Mae ysgrifennu'r Cynllun Datblygu hwn wedi caniatáu i ni bwyso a mesur ble yr ydym fel sefydliad a nodi i ba gyfeiriad y byddwn yn mynd yn ystod y tair blynedd nesaf a thu hwnt. Mae'r gwaith wedi rhoi'r cyfle i ni feddwl yn strategol ynglŷn â'n cyfraniad i ddyfodol Cymru ac wedi ein helpu i sicrhau bod ffocws pendant gennym ym mhopeth a wnawn; gan ganolbwyntio ar y materion sydd o'r pwys mwyaf i'n haelodau a'r rheiny y gallwn ni gael yr effaith mwyaf arnynt.

Ein huchelgais yw datblygu fel sefydliad o ran maint ein haelodaeth sylfaenol a lefel ein dylanwad a'n gweithgarwch ar draws Cymru. I gyflawni hyn, mae ein Cynllun Datblygu a'n Cynllun Gweithredu yn ganolog i'r gwaith o'n galluogi i ddatblygu ein medrau fel cymdeithas broffesiynol ac fel cyfrannwr allweddol i ddatblygu polisi yng Nghymru.

Bydd pawb yn cytuno y bydd ym mha gyd-destun y byddwn yn gweithio ynddo yn dod yn fwyfwy cymhleth ac ymestynnol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod a bod yna lawer o sialensiau anodd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn gwneud y perthnasau sydd gennym, yn enwedig gyda phartneriaid allweddol fel Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn bwysicach fyth. Yn ogystal â hyn mae'n gwneud rhwydwaith SOLACE a rôl cymdeithas gref a chroyw, gyda ffocws pendant ar gyfer uwch arweinwyr yn fwy gwerthfawr nag erioed.

Rwyf yn edrych ymlaen at ddyfodol disglair i SOLACE Cymru ac rwyf yn cymeradwyo'r Cynllun Datblygu hwn a'i Gynllun Gweithredu ategol i chi.

Alison Ward
Cadeirydd, SOLACE Cymru 2009 -10

Cynnwys

	SECSIWN	tudalen
	Rhagair	2
1	Gweledigaeth	3
2	Cefndir	4
	Ynghylch SOLACE Cymru	
	Cynnydd diweddar	
	Heriau a chyfleoedd	
	SOLACE Cymru 2010-13	
3	Dylanwadu a Datblygu Polisi	6
4	Datblygu Perthnasau Allweddol Effeithiol	6
5	Datblygu Cyfathrebu Mewnol ac Allanol Effeithiol	7
6	Darparu Rhaglen Ddigwyddiadau o Ansawdd Uchel	7
7	Gwella a Datblygu'r Gangen	8
8	Adnoddu, Monitro ac Adolygu'r Cynllun Datblygu	8

1 gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad aelodaeth ymglymedig sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i bolisi cyhoeddus gan siapio dyfodol Cymru, gyda'r nod yn y pen draw o wella canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau.

Fel y gymdeithas broffesiynol ar gyfer prif weithredwyr ac uwch reolwyr awdurdodau lleol yng Nghymru, rydym yn cynrychioli diddordebau a phryderon ein haelodau ac yn rhannu eu budd gor-redol o ran sicrhau gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol ac ymdrechu am ganlyniadau gwell i ddinasyddion a chymunedau.

Mae gan SOLACE Cymru gylch gwaith eang ac ystod o weithgareddau ac mae'n ceisio parhau i chwarae rôl allweddol fel un o'r prif sefydliadau yn nheulu'r llywodraeth leol. Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn gweithio tuag at ddod yn sefydliad mwy gweithredol, drwy estyn ein capasiti ac ystod ein hymglymiad â gweithwyr proffesiynol yn y sector gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal ymdeimlad cryf o ffocws gyda phopeth a wnawn, er mwyn taclo'r materion cymhleth a sylweddol a wynebwn gyda'n gilydd gyda'n partneriaid. Byddwn yn parhau i ddarparu llais proffesiynol i'r rhan fwyaf o uwch reolwyr yn y llywodraeth leol a sicrhau bod y llais hwn ar gael i ac yn cael ei glywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar y lefelau uchaf yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Gweledigaeth SOLACE Cymru yw bod yn sefydliad aelodaeth ymglymedig sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i bolisi cyhoeddus ac sy'n ymgysylltu'n effeithiol â'r cyrff cenedlaethol gan siapio dyfodol Cymru. Byddwn yn sicrhau ein bod yn dylanwadu ar siâp a chyfeiriad y gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol sylweddol ac agenda cynyddol Gymreig. Byddwn yn ynganu'r hyn y gall llywodraeth leol ei wneud a'i gyflawni a cheisio hyrwyddo'i rôl arweinyddol ymysg partneriaid sy'n darparu gwasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol. Rydym yn ceisio cefnogi a hyrwyddo rhannu gwybodaeth, dysgu a syniadau a hyrwyddo dulliau a datrysiadau arloesol a fydd yn helpu i gyflawni gwasanaethau gwell sy'n fwy ymatebol ac effeithlon. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gefnogi arweinyddiaeth a rheoli ardderchog mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae SOLACE Cymru yn ceisio bod yn gymdeithas broffesiynol ddynamig sy'n cynnig rhwydweithio, datblygu a chynrychiolaeth werthfawr i uwch weithwyr proffesiynol. Byddwn yn cynyddu'r posibilrwydd i aelodau fanteisio ar y cyfleoedd hyn a gwella proffil uwch weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn llywodraeth leol.

2 cefndir

Ynghylch SOLACE Cymru

SOLACE Cymru yw cangen Cymru o Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Dyma'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer uwch reolwyr strategol sy'n gweithio mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Mae SOLACE yn sefydliad ledled y DU gyda 1700 o aelodau yn cynrychioli'r rheolwyr uchaf yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

Mae'r Gymdeithas yn darparu fforwm i aelodau rwydweithio a rhannu gwybodaeth a syniadau; trefnu ystod o ddigwyddiadau proffil uchel; cefnogi datblygiad proffesiynol ac yn ceisio dylanwadu polisi cyhoeddus ac ymateb i faterion sydd o bwys i'w haelodau ac i lywodraeth leol yn gyffredinol. Mae SOLACE Cymru yn un o ddeuddeg cangen ranbarthol sy'n ffurfio prif rwydwaith y Gymdeithas.

Yng nghyd-destun y broses ddatganoli barhaus mae agenda polisi cynyddol unigryw yng Nghymru ac mae cyfeiriad strategol y gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i ddargyfeirio o lywodraeth y DU. Mae SOLACE felly wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu cangen gref, ymreolaethol a brwd yng Nghymru a all ymateb yn gadarnhaol ac adeiladol i'r agenda hon, gyda threfniadau tebyg yn eu lle yng nghanghennau Alban a Gogledd Iwerddon.

Caiff SOLACE Cymru ei lywodraethu gan ei gyfarfodydd aelodau chwarterol lle gwneir penderfyniadau ar faterion y gangen a materion polisi. Caiff y Gangen ei harwain a'i rheoli gan y Swyddogion Cangen a etholir yn flynyddol â'r Cadeirydd yn gyfrifol am y cyfeiriad strategol cyffredinol. Mae swyddi Swyddogion y Gangen yn cynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd Anrhydeddus a'r Cyn-Gadeirydd Uniongyrchol. Fe'u cefnogir gan Swyddog Gweithredol llawn amser.

Cynnydd diweddar

Yn 2005 cyhoeddodd SOLACE Cymru ei gynllun datblygu cyntaf i nodi ei gyfeiriad ar gyfer y Gangen. Ar y pryd roedd aelodau SOLACE yng Nghymru yn cwrdd unwaith y flwyddyn yn unig ac nid oedd ganddynt broffil sylweddol yn y genedl ddatganoledig. Sefydlodd y Gangen ei nodau i ymgysylltu'n adeiladol ag agenda polisi Cymru a datblygu llais a phroffil gwell ar gyfer uwch weithwyr proffesiynol. Nododd hefyd ei gysylltiadau a phartneriaeth effeithiol ar lefelau uchaf y prif sefydliadau yng Nghymru.

Ers cyhoeddi'r cynllun datblygu cyntaf mae SOLACE Cymru wedi cyflawni nifer o'i nodau yn llwyddiannus ac mae'n mwynhau proffil uchel a pherthnasau da gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a sefydliadau pwysig eraill. Mae wedi sefydlu strwythurau a dulliau sy'n angenrheidiol i weithredu'n effeithiol megis y system portffolio polisi, rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd a digwyddiadau eraill gan gynnwys cynhadledd flynyddol lwyddiannus. Mae wedi llwyddo i ddyfod yn gorff sy'n darparu cynrychiolaeth broffesiynol uwch ar fyrddau a gweithgorau ar gyfer materion strategol cenedlaethol. Mae wedi bod yn ddylanwadol o ran siapio datblygiad polisi trwy'r system hon ac wedi cynrychioli ei aelodau trwy ymatebion i nifer o ymgynghoriadau pwysig. Mae SOLACE Cymru wedi cychwyn newid ac wedi dylanwadu ar benderfyniadau megis rhesymoli partneriaethau statudol a gostyngiadau yn y nifer o ddangosyddion perfformiad. Mae wedi siapio'r ddadl trwy bapurau safbwynt polisi a thrwy greu fforwm ar gyfer trafod yn ei ddigwyddiadau. Yn fwy diweddar mae wedi cychwyn project proffil uchel ac amserol i ystyried effaith lefelau nawdd yn y dyfodol ar lywodraeth leol, ymchwilio'r math o ddatrysiadau sy'n ofynnol i ymdrin â hyn a cheisio ymateb strategol gan y llywodraeth leol a LLCC.

Heriau a chyfleoedd

Mae'r cynllun datblygu hwn wedi'i gyhoeddi ar adeg pan fo prif weithredwyr ac uwch reolwyr yn gweld gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu rhai o heriau anoddaf yn ystod blynyddoedd diweddar a chyfnod digynsail o newid a chynnydd. Rydym yng nghanol y dirwasgiad gwaethaf ers hanner can mlynedd ac mae cyfnod eithriadol o anodd o'n blaen o ran cyllid cyhoeddus.

Mae ymchwil SOLACE Cymru ar effaith lefelau nawdd yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol yn datgelu pwysau nawdd o drefn sy'n ddigynsail yn Llywodraeth y Cynulliad. Bydd pwysau gwasanaeth a newid democrataidd yn siŵr o ychwanegu at faint y bwlch.

Mae'r sefyllfa economaidd hefyd wedi gwaethygu'r lefel o sylw

negyddol yn y wasg ynghylch prif weithredwyr ac uwch reolwyr, gwerth eu rôl a thelerau ac amodau eu cyflogaeth. Her i SOLACE yw parhau i gefnogi buddion a phryderon aelodau trwy hyrwyddo gwerth eu cyfraniad i wasanaethau cyhoeddus ac ynganu'n well beth yw cyfrifoldebau'r rôl.

Rydym hefyd yng nghanol cyfnod o newid gwleidyddol o bwys ar gyfer pob haen o lywodraeth. Pwy bynnag sydd â'r pŵer byddwn yn wynebu rhai dewisiadau adnoddau anodd iawn. Er bod yr ymdrech barhaus ar gyfer gwell effeithlonrwydd a'r gwerth am arian gorau posibl yn holl bwysig, nid yw hyn yn ei hun yn ddigon. Mae angen ail-siapio gwasanaethau cyhoeddus ac o fewn hyn, bydd angen ailddiffinio rôl y llywodraeth leol yn y dyfodol. Mae llywodraeth leol, a'r mandad arweinyddiaeth gymunedol sydd ganddi, wrth wraidd darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus. Gan fod Byrddau Gwasanaeth Lleol ledled Cymru, bydd yn chwarae rôl ganolog o ran siapio ardaloedd a galw fforwm i bartneriaid ymdrin â materion anodd gyda'i gilydd.

Mae'r sefyllfa bresennol yn holl bwysig o ran cynyddu cyflymdra cydweithio a'r ymdrech am effeithlonrwydd. Mae hefyd yn gyfle ar gyfer newid trawsffurfiol ac ystyried datrysiadau radical o bryd i'w gilydd. Yn ogystal ag ail-ddylunio modelau gwasanaeth mae angen i ni ailystyried dinasyddion a chymunedau a'u perthynas â'r wladwriaeth; beth allant ei ddisgwyl a beth yw eu cyfrifoldebau.

I ymdrin â'r heriau mawr hyn mae angen i bob haen o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus weithio gyda'i gilydd a dangos arweinyddiaeth trwy'r cyfnod anodd hwn. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ddangos arweinyddiaeth a gweledigaeth gref ar gyfer y ffordd ymlaen ac i ymddiried mewn llywodraeth leol fel y gorau i ddarparu.

Mae cynhesu at berthynas a chynyddu'r ddeialog agored rhwng llywodraeth ganolog a lleol wedi bod yn ddatblygiad positif. Mae ymddangosiad dealltwriaeth newydd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r llywodraeth leol a'r fframwaith datblygu polisi cysylltiedig wedi creu cyfle i ailddiffinio'r berthynas. Mae dull newydd yn seiliedig ar ganlyniadau lleol a chenedlaethol a rennir, blaenoriaethu a ffocws, a dialog ystyrlon yn dechrau ein gosod ar y trywydd iawn am ddyfodol gwell.

SOLACE Cymru 2010-13

Ers ei gynllun datblygu diwethaf mae SOLACE Cymru wedi gwneud camau sylweddol ymlaen. Cafwyd nifer o newidiadau hefyd o fewn y Gymdeithas, newidiadau i'r ddadl ynghylch polisi a'r amgylchedd gwleidyddol yng Nghymru a'r DU, a newidiadau dramatig i'r heriau economaidd ac eraill a wynebwn yng Nghymru a'r byd ehangach.

Wrth wynebu'r amgylchedd newidiol hwn a'r angen i fod yn berthnasol ac ymatebol mae'n bryd i ni edrych ar ein sefyllfa, adolygu ein heffeithiolrwydd fel sefydliad, ac ystyried cyfarwyddyd strategol SOLACE Cymru yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer SOLACE Cymru dros y tair blynedd nesaf a'r nodau a'r amcanion a fydd yn ein helpu i gyflawni hyn ym meysydd blaenoriaeth y Gangen sef dylanwadu a datblygu polisi; datblygu perthnasau allweddol; darparu rhaglen ddigwyddiadau o ansawdd uchel; gwella a datblygu'r gangen a datblygu cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol.

Mae'r Cynllun Datblygu yn seiliedig ar safbwyntiau a dyheadau aelodau ar gyfer y Gangen ar ôl cyfarfodydd unigol â'r holl brif weithredwyr a nifer o aelodau eraill, ac fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad ag aelodau'r Gangen a chyda'u mewnbwn a'u hymglymiad o'r cychwyn. Fe'i cefnogir gan gynllun gweithredu, a fydd yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu'n rheolaidd fel dogfen weithiol a bydd yn cael ei adnewyddu'n flynyddol.

3 Dylanwadu a Datblygu Polisi

Amcanion:

- bod yn sefydliad allweddol wrth ffurfio ac adolygu polisi cyhoeddus yng Nghymru;
- cymryd rhan wrth siapio a datblygu polisi yn ystod y cam cychwynnol;
- cyfrannu'n adeiladol i'r ddadl polisi a dylanwadu ar gyfarwyddyd strategol gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd â phartneriaid.

I gyflawni ein nodau polisi mae angen i ni gynyddu ein capasiti ar gyfer ymgymryd â gwaith polisi a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o sgiliau, arbenigedd a phrofiad ein haelodau ac yn cynnwys ystod ehangach o aelodau. Gall aelodau SOLACE gynnig safbwynt unigryw sy'n ymwneud ag amcanion strategol, yn ogystal â deall materion gweithredu a darparu. Byddwn yn hyrwyddo eu hymglymiad a'u profiad a'u harbenigedd werthfawr yn y broses datblygu polisi.

Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgareddau polisi yn ymwneud â'r materion sy'n flaenoriaeth i'n haelodau. Golyga hyn bob blwyddyn y bydd nifer fechan o themâu polisi yn cael eu nodi yn seiliedig ar yr ardaloedd y gall SOLACE Cymru ddylanwadu fwyaf arnynt. Byddwn hefyd yn cymryd y cyfle i ymgysylltu â gwaith perthnasol a ddechreuir gan eraill a bydd yn gweithio'n agos gyda CLILC, Llywodraeth y Cynulliad a chydweithwyr mewn sefydliadau partner eraill i gyd-gynhyrchu polisïau sy'n darparu gwir welliannau. Byddwn yn ceisio cyfrannu at gyd-gynhyrchu polisi sy'n berthnasol i'n blaenoriaethau a nodwyd mor gynnar â phosib.

Byddwn yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer trafod a dadlau ar y materion o bwys hyn i sicrhau y gall SOLACE ddatblygu sefyllfa glir ac ystyriol. Bydd hyn yn caniatáu i ragor o aelodau roi mewnbwn i'r broses datblygu polisi, gan sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu cynrychioli'n gywir a'n bod ni'n darparu llais effeithiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol llywodraeth leol.

Byddwn yn ymateb i ymgynghoriadau ar faterion perthnasol a byddwn yn parhau i ddefnyddio system bortffolio y Gangen fel ffordd o gynrychioli SOLACE Cymru ar amryw fyrddau a gweithgorau ac ymateb i ymgynghoriadau a cheisiadau tebyg. Mae'r system yn ein caniatáu i roi barn wybodus, manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd aelodau. Byddwn yn ystyried camau gweithredu i gynyddu cyfranogiad yn y system portffolio a gwella cyfathrebu rhwng cynrychiolwyr y Gangen ac aelodau eraill.

Bydd SOLACE Cymru hefyd yn gweithio tuag at chwarae rôl mwy rhagweithiol o ran dylanwadu ar agenda polisi a chyfarwyddyd llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Bydd y Gangen yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth ac yn ceisio ysgogi dadl, cyflwyno syniadau ffres ac arloesol a datblygu ymchwil. Er mwyn gwneud hyn bydd SOLACE Cymru yn cynnal nifer fechan o brojectau strategol bob blwyddyn sy'n ceisio dylanwadu ar yr agenda ac ynghyd â phartneriaid, defnyddio meddwl arloesol â materion sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth mawr i'r heriau a wynebwn.

4 Datblygu Perthnasau Allweddol Effeithiol

Amcanion:

- adeiladu a chynnal perthnasau gwaith cadarnhaol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Cynulliad Lleol Cymru, cyrff adolygu allanol, partneriaid sector cyhoeddus, a chymdeithasau proffesiynol eraill;
- Gweithio'n agos â phartneriaid allweddol i sicrhau llais cryf ar gyfer llywodraeth leol a gweithwyr proffesiynol sector cyhoeddus Cymru;
- Sicrhau bod SOLACE Cymru yn cael ei barchu fel partner allweddol o ran gwneud penderfyniadau strategol ac yn gallu cysylltu â'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau ar y lefel uchaf.
- Parhau i sicrhau buddion i'r Gangen a'n partneriaid busnes trwy bartneriaethau busnes cynaliadwy a chynhyrchiol.

Byddwn yn gweithio'n agos â phartneriaethau allweddol; yn enwedig CLILC i sicrhau ein bod ni'n datblygu llais cryf a chyson i lywodraeth leol yng Nghymru; a Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu perthnasau gwell rhwng llywodraeth ganolog a lleol. Byddwn yn cryfhau ein gallu i ymgysylltu â Llywodraeth y Cynulliad, CLILC a phartneriaid y sector cyhoeddus ehangach a chydweithio â nhw drwy weithredu i ehangu a chynyddu ein haelodaeth sydd eisoes yn weithgar. Bydd Swyddogion Cangen SOLACE Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â'r swyddogion uchaf yn Llywodraeth y Cynulliad ac CLILC i sicrhau bod y perthnasau hyn yn parhau i fod mor effeithiol â phosibl. Byddwn yn ceisio dylanwadu a diffinio'r berthynas rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth y Cynulliad mewn ffordd bositif, fel un o ymddiriedaeth, cydweithredu a gweledigaeth a rennir a byddwn yn cynnwys amrywiaeth ehangach o'n haelodau wrth drafod a datblygu polisïau yn gynnar.

Mae hefyd yn holl bwysig ein bod ni'n gweithio gyda'n gilydd a phartneriaid eraill yng Nghymru, gan gynnwys cyrff adolygu, GIG, yr

Heddlu a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i siapio a chyd-gynhyrchu polisi a datblygu cylch dylanwadu SOLACE Cymru a rhwydwaith o weithwyr proffesiynol sector cyhoeddus arweiniol.

Byddwn yn adeiladu cysylltiadau gwell gyda chymdeithasau proffesiynol eraill yng Nghymru, gan gynnwys grwpiau proffesiynol yn y llywodraeth leol a'r rheiny sy'n cynrychioli uwch weithwyr proffesiynol o sectorau eraill. Bydd hyn yn ein helpu i ddysgu a rhannu arfer da a datblygu rhwydwaith proffesiynol mwy bywiog gyda'r cyfle i rannu materion sy'n gyffredin a defnyddio arbenigaeth gweithwyr proffesiynol sy'n cynrychioli gwasanaethau penodol fel sail i safle strategol SOLACE Cymru.

Byddwn yn gweithio i faethu perthnasau da gyda chydweithwyr o SOLACE yng ngweddill y DU trwy gyfathrebu rheolaidd a chyfleoedd ar gyfer trosglwyddo dysgu ac arfer da a sicrhau bod y Gangen a'i haelodau yn cael y cyfle gorau posib i elwa o'r rhwydwaith, capasiti, arbenigaeth a datblygiad proffesiynol sydd ar gael o fewn SOLACE.

Mae SOLACE Cymru yn gwerthfawrogi ei berthynas â phartneriaid busnes a'r cyfraniad a wnânt i sicrhau llwyddiant parhaus y Gangen. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein perthnasau partner busnes yn creu manteision gwerthfawr i'r Gangen a'n partneriaid. Byddwn yn helpu i hwyluso'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth a phrofiad rhwng sectorau trwy bartneriaethau cynaliadwy hir dymor sydd hefyd yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Gangen.

5 Datblygu Cyfathrebu Mewnol ac Allanol Effeithiol

Amcanion:

- cyfathrebu neges gadarnhaol ynghylch SOLACE Cymru, llywodraeth leol a gweithwyr proffesiynol sector cyhoeddus;
- cynrychioli safbwyntiau aelodau a'u diddordebau fel grŵp proffesiynol drwy gytuno a chyfathrebu safle SOLACE Cymru ar themâu a materion polisi blaenoriaeth;
- parhau i wella cyfathrebu rhwng SOLACE Cymru â'i aelodau ac yn fewnol rhwng aelodau.

Byddwn yn cyfathrebu rhai negeseuon syml, clir trwy strategaeth gyfathrebu sy'n ceisio hyrwyddo; SOLACE Cymru fel sefydliad effeithiol a all ychwanegu gwerth i'r ddadl polisi a datblygiad proffesiynol; cryfderau llywodraeth leol a'i rôl ganolog yn y gwasanaethau cyhoeddus; a chyfraniad pwysig gweithwyr proffesiynol sector cyhoeddus arweiniol.

Byddwn yn parhau i weithio ar ddulliau sy'n gwella cyfathrebu yn y gangen a sicrhau ei fod yn sefydliad mor effeithiol â phosibl. Yn benodol byddwn yn datblygu cyfathrebu gwell rhwng y portffolios polisi a'r rheiny sy'n cynrychioli SOLACE Cymru ar fyrddau a gweithgorau a gweddill yr aelodaeth, a gweithgarwch y Gymdeithas i'n haelodau.

Byddwn yn defnyddio ystod o sianeli i gyfathrebu gyda'n haelodau a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys cylchlythyrau, adroddiadau ysgrifenedig a dogfennau, gwefan SOLACE Cymru, cysylltiadau a rhwydweithiau'r sefydliad, digwyddiadau a chyfarfodydd. Byddwn yn ceisio cynyddu ystod ac ansawdd sianeli cyfathrebu sydd ar gael i'r Gangen.

6 Darparu Rhaglen Ddigwyddiadau o Ansawdd Uchel

Amcanion:

- cynnig rhaglen ddigwyddiadau berthnasol ac ymgysylltiol sydd o fudd i holl aelodau cangen drwy hwyluso rhwydwaith proffesiynol dynamig, gan ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu a chodi proffil SOLACE Cymru;
- defnyddio ein cyfarfodydd a digwyddiadau fel platfform i helpu SOLACE Cymru gyflawni ei nodau polisi.

Bydd SOLACE Cymru yn parhau i ddatblygu ein rhaglen ddigwyddiadau mewn ffordd sy'n sicrhau mwy o le i drafod a dadlau ar faterion polisi. Bydd hyn yn ein caniatáu i gynyddu ein capasiti ar gyfer dylanwadu a datblygu polisi a'llais'clir. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant cynhadledd flynyddol SOLACE Cymru sy'n sicrhau y bydd yn ddigwyddiad allweddol yng nghalendr proffesiynol y sector cyhoeddus.

Bydd ein digwyddiadau chwarterol sy'n cynnwys cyfarfod cangen, cinio busnes a chyfarfod gyda swyddogion CLILC a Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i chwarae rôl ganolog â'n gweithgaredd. Byddwn yn sicrhau bod y digwyddiadau hyn o fudd i aelodau ac yn effeithiol o ran cyflawni gweledigaeth SOLACE Cymru trwy ddarparu cyfleoedd i gyfrannu at flaenoriaethau polisi ac ymgysylltu mewn dialog gyda Llywodraeth y Cynulliad, CLILC a chyrff eraill, yn ogystal â rhwydweithio a rhannu gwybodaeth a syniadau. Byddwn yn ceisio gwella'r cyfleoedd a gynigir i aelodau SOLACE yn y digwyddiadau hyn, y lefel cyfranogiad ac ystod a dyfnder y cynnwys. Defnyddir y digwyddiadau i gataleiddio camau gweithredu pellach ac arwain at ddatblygu gweithgareddau SOLACE Cymru ymhellach rhwng cyfarfodydd chwarterol.

Byddwn yn ehangu ein rhaglen ddigwyddiadau a chynyddu'r lefel gweithgareddau rhwng cyfarfodydd chwarterol, sy'n caniatáu i ystod ehangach o bobl gymryd rhan yn ein gweithgareddau a sicrhau y gall aelodau ddefnyddio ein digwyddiadau fel cyfleoedd dysgu a datblygu, er enghraifft, drwy gyflwyno syniadau newydd a herio meddwl am egwyddorion ac arferion. Bydd hyn yn cynnwys profi ystod o ddigwyddiadau byr mewn gwahanol fformatau, megis seminarau hanner diwrnod, trafodaethau ford gron a briffiau amser cinio i ganolbwyntio ar faterion polisi penodol a/neu arweinyddiaeth a datblygu rheolaeth. Byddwn hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer digwyddiadau gyda sefydliadau a phartneriaid eraill yn ogystal â digwyddiadau yn targedu gwahanol grwpiau o aelodau.

7 Gwella a Datblygu'r Gangen

Amcanion:

- aelodaeth frwd a chynaliadwy sy'n elwa o fod yn rhan o SOLACE ac yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth SOLACE Cymru;
- sicrhau bod SOLACE Cymru mewn sefyllfa dda o ran aelodaeth, cyllid a chapasiti i ddarparu ei nodau a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Bydd SOLACE Cymru yn sicrhau y gall ddarparu 'cynnig' aelodaeth glir ac eglur ar lefel prif weithredwyr, uwch reolwyr, rheolwyr canol a graddedigion i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llywodraeth leol a sectorau cysylltiedig ar draws Cymru. Byddwn yn hyrwyddo'r 'cynnig' hwn a manteision aelodaeth ac ystyried cymhellion i annog aelodau newydd, â'r nod o gynyddu ein haelodau er mwyn cefnogi cynaliadwyedd hir dymor SOLACE Cymru a chynyddu ein capasiti fel cymdeithas broffesiynol a chyfrannydd allweddol i ddatblygiad polisi. Byddwn hefyd yn hyrwyddo manteision aelodaeth ac yn gwerthfawrogi ymglymiad SOLACE i aelodau cyfredol i annog ymglymiad gwell gan ystod ehangach o unigolion.

Byddwn yn sicrhau bod trefniadau cyfansoddiadol a gwneud penderfyniadau y Gangen yn glir ac yn ddealladwy. Byddwn yn sicrhau cydbwysedd arweinyddiaeth gan Swyddogion Cangen a phenderfyniadau a wneir gan y Gangen ar faterion Cangen, cyfarwyddyd polisi a rheoli projectau SOLACE Cymru, â'r nod o faethu ymdeimlad o berchnogaeth ac ymglymiad yn y sefydliad a'i gyfarwyddyd yn y dyfodol.

Blaenoriaeth allweddol ar gyfer SOLACE Cymru yw sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i barhau i fod yn chwaraewr pwysig yn natblygiad strategol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod sefyllfa ariannol y Gangen yn iach a chynaliadwy ac yn caniatáu ar gyfer cynnydd mewn gweithgareddau ac aelodaeth. Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i bartneriaid busnes ac yn ymchwilio opsiynau i gynyddu incwm a gynhyrchir lle bo'n briodol trwy berthnasau partner busnes, cyfleoedd noddi a digwyddiadau.

Byddwn hefyd yn parhau â'n hymrwymiad i berthnasau cynhyrchiol â rhannau eraill o SOLACE gan gynnwys Sefydliad SOLACE, SOLACE UK a Changhennau Alban a Gogledd Iwerddon a byddwn yn sicrhau bod y gangen yn parhau i fanteisio ar fuddion posibl y sefydliad ehangach y mae'n rhan ohono.

8 Adnoddu, Monitro ac Adolygu'r Cynllun Datblygu

Bydd nodau ac amcanion y cynllun datblygu yn cael ei ddatblygu trwy'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun gweithredu ategol. Mae'r cynllun yn nodi gweledigaeth uchelgeisiol ond posibl ar gyfer SOLACE Cymru ac yn ceisio sicrhau y gall y Gangen dyfu a datblygu a manteisio ar ei photensial yn yr hinsawdd gyfredol. Bydd angen cynyddu maint ac ystod gweithgareddau mewn rhai meysydd gan gynyddu capasiti ac adnoddau hefyd felly. Yn ogystal ag amser staff SOLACE a Swyddogion y Gangen mae darparu'r cynllun hwn yn dibynnu ar ymrwymiad a chefnogaeth yr holl aelodau a phartneriaid allweddol eraill. Mae angen i aelodau fod yn berchen ar y camau gweithredu a'r amcanion yn y cynllun a rhannu cyfrifoldeb dros eu darparu.

Er mai cynllun tair blynedd ydyw, y bwriad yw ei adolygu a'i ddiweddaru i gynnwys adborth aelodau a'i gadw yn unol â chyfarwyddyd strategol y Gangen ac yn berthnasol i'r cyd-destun y mae SOLACE Cymru yn gweithredu iddo. Bwriad y cynllun gweithredu yw bod yn ddogfen weithiol y gellir ei ddiweddaru a'i adolygu'n rheolaidd yn seiliedig ar adborth aelodau a bydd yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn flynyddol. I fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun datblygu byddwn yn datblygu cyfres o ffactorau llwyddiant a fydd yn dangos beth ydym ni wedi'i gyflawni a darparu ffordd o fod yn atebol i aelodau ar gyfer darparu'r cynllun gweithredu a gweithio tuag at ein nodau ac amcanion.